# Y Tolldy



## Beth yw e?

- Tolldy yw hwn. Fe'i hadeiladwyd yn Aberystwyth ym 1771 am gost o £40.
- Adeiladwyd y tolldai i gasglu arian gan deithwyr, a châi'r arian ei ddefnyddio wedyn i adeiladu a chynnal-a-chadw'r ffyrdd.



## Pwy oedd yn byw yma?

- Ceidwad cyntaf y tolldy oedd David Jones o Ddihewyd, Ceredigion.
- Roedd y ceidwad yn casglu arian ddydd a nos. Byddai'n gorfod byw yma i wneud yn siŵr ei fod e'n casglu'r holl arian.

## Ffeithiau difyr

- Casglwyd yr arian cyntaf yn y tolldy hwn ar 23 Mawrth 1772. Gallwch weld y taliadau a godwyd ar deithwyr wedi eu nodi ar wal y dollborth.
- Roedd y tolldai'n amhoblogaidd dros ben yng nghefn gwlad am fod pobl yn ei chael hi'n anodd talu'r doll. Nod Terfysgoedd Beca (1839-1843), oedd dinistrio'r tolldai. Galwyd y terfysgwyr yn Ferched Beca am i'r dynion wisgo dillad merched er mwyn peidio â dangos pwy oedden nhw.
- Adeiladwyd y tolldy hwn o garreg leol ac mae ganddo do llechi. Mae'r waliau 2 droedfedd (61cm) o drwch ac 8 troedfedd (2.4m) o uchder.
- Dim ond un ystafell sydd yn y tolldy. Mae un ochr ar gyfer casglu arian, a'r llall yn lle byw.
- Edrychwch ar y lle tân, dyma'r unig ffynhonnell gwres ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer coginio hefyd.

## Am ragor o wybodaeth?

- Stuart Broomfield & Euryn Madoc-Jones, *Trobwyntiau mewn Hanes Cymru 1485-1914* (University of Wales Press, 2004)